# Uned 2: Lefel A Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## *2.2.2 Egwyddorion Gofal*

cbac wjec

**Gwrthwahaniaethu:** Trin unigolyn neu grŵp mewn ffordd annheg ar sail rhywedd (LGBT, menywod), hil (lleiafrifoedd ethnig), crefydd, oedran (pobl hŷn) neu allu (meddyliol neu gorfforol).

**Hawliau'r unigolyn/plentyn** – yr hawl i gael ei **barchu, ei drin yn deg**, i beidio â dioddef unrhyw gamwahaniaethu, yr hawl i **breifatrwydd** ac **urddas**, yr hawl i gael ei **amddiffyn rhag niwed**, yr hawl i **wybodaeth** berthnasol, yr hawl i **gyfathrebu** a **mynegi ei hun**, yr hawl i **ddewis**. Ymdrinnir â hawliau unigol yn y ddeddfwriaeth ganlynol: Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Plant 1989, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1973, Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

**Urddas:** Gwerthfawrogi dewisiadau/penderfyniadau pob person, peidio â chymryd yn ganiataol yr hoffai gael ei drin mewn ffordd benodol. Dangos parch, peidio â thanseilio hunan-barch na hunan-werth. **Enghraifft 1:** gadael i bobl ddewis pa ddillad yr hoffen nhw eu gwisgo. **Enghraifft 2:** cyfarch pobl gan ddefnyddio eu teitl priodol/dewis enw.

**Empathi:** deall teimladau pobl eraill, meithrin ymddiriedaeth, datblygu ymagwedd ddigyffro er mwyn gwella canlyniadau. **Enghraifft 1:** treulio amser ychwanegol er mwyn deall materion/rhoi cymorth. **Enghraifft 2:** cyswllt llygaid/iaith gefnogol wrth gwnsela unigolyn sy'n galaru, "mae'n anodd iawn ymdopi â galar o'r fath, mae rhai dyddiau yn anodd iawn".

**Cyfrinachedd:** Parchu gwybodaeth bersonol drwy beidio â'i datgelu i unrhyw un nad oes angen iddyn nhw ei gwybod. Cydymffurfio â pholisïau a hyfforddiant diogelu data ynghyd â dulliau ar gyfer storio gwybodaeth yn ddiogel. **Enghraifft 1:** defnyddio cyfrineiriau i amddiffyn cofnodion electronig **Enghraifft 2:** defnyddio dyfais symudol ddiogel.

**Cydraddoldeb** – gwneud yn siŵr bod pawb yn cael **cyfle cyfartal** i gael gafael ar ofal iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant ni waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol neu'u galluoedd a'u bod yn cael eu trin **yr un fath yn ôl eu hanghenion**. **Enghraifft 1.** Mynediad cadair olwyn i adeilad er mwyn sicrhau y gall pobl ag anawsterau symudedd fynychu apwyntiadau. **Enghraifft 2.** Ysgrifennu gwybodaeth mewn braille neu mewn ieithoedd deuol er mwyn i bawb allu ei darllen. Sicrhau bod ***Mwy na geiriau*** a'r ***Cynnig Rhagweithiol*** (Cymru) yn sail i ddarpariaeth Gymraeg.

### Beth yw Egwyddorion Gofal?

Mae'r **egwyddorion gofal** a'r **gwerthoedd craidd** yn sail i'r ffordd y mae darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn gweithio er mwyn sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn y gofal priodol. Mae hyn yn sicrhau **dull gweithredu unigoledig** a **chanlyniad llwyddiannus** sy'n **amddiffyn** y defnyddiwr gwasanaeth a'r darparwr gwasanaeth. Mae gweithio o fewn yr egwyddorion gofal yn sicrhau y caiff y gwerthoedd a restrir eu **cynnal** er mwyn gwneud yn siŵr y caiff pawb eu trin **yn deg ac yn briodol** o dan y **ddeddfwriaeth a'r canllawiau**.

**Dyletswydd gofal: Rhwymedigaeth gyfreithiol** i weithredu er budd unigolion ac i unigolion weithio'n unol â'u cymwyseddau er mwyn osgoi unrhyw niwed. **Enghraifft 1:** gweithio o fewn codau ymarfer ysgrifenedig. **Enghraifft 2:** sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth yn gyfredol er mwyn rhoi'r cyngor a'r cymorth gorau.

**Diogelu:** amddiffyn rhag camdriniaeth, atal esgeulustod. Deddfwriaeth: **Deddf Gofal 2014**, yr hawl i fyw'n ddiogel, dyletswydd i wneud ymholiadau os bydd amheuon o gam-drin/ esgeulustod, dylid gweithio gyda phartneriaid eraill sy'n rhan o'r tîm i amddiffyn unigolyn rhag y risg o gael ei gam-drin.

**Credoau a Hunaniaeth (Amrywiaeth) – gwerthfawrogi** a **derbyn gwahaniaethau** pobl mewn perthynas â'u gwerthoedd, eu credoau, eu diwylliannau a'u ffyrdd o fyw. **Enghraifft 1:** rhoi'r cyfle i bobl addoli gan ddilyn eu ffydd nhw eu hunain hyd yn oed os nad ydych o'r un ffydd. **Enghraifft 2:** gweini bwyd amrywiol/amlddiwylliannol mewn ysbyty er mwyn bodloni unrhyw chwaethau a diwallu unrhyw anghenion deietegol.

**Cynhwysiant** – Dylid **cynnwys** pobl mewn grŵp neu gymdeithas drwy ddeall/parchu eu gwahaniaethau a'u trin yn gyfartal. Dylai gweithwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant weithio mewn ffordd gynhwysol er mwyn gwneud yn siŵr y gall pawb gymryd rhan mewn penderfyniadau. Dyma wir ystyr ***gofal person-ganolog***. **Enghraifft 1:** parchu hawl person i weithio/gwirfoddoli drwy roi'r cyfle iddo ymuno â grŵp. **Enghraifft 2:** cynnwys aelodau'r teulu wrth wneud penderfyniadau gofal drwy roi rôl ystyrlon iddyn nhw.

**Gofal person-ganolog:** annog oedolyn neu blentyn i fod mor annibynnol â phosibl, addasu ei gartref i'w alluogi i ymdopi ar ei ben ei hun. Sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth wrth wraidd y broses o gynllunio gofal a'i drin fel partner cyfwerth wrth gynllunio a monitro ei ofal.

**Dewis, llais a rheolaeth** – sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau **lais annibynnol** neu eiriolwr annibynnol i lefaru ar eu rhan. Helpu pobl sy'n agored i niwed i wneud **penderfyniadau gwybodus** am eu gofal. Grymuso defnyddwyr gwasanaethau i feddu ar **hunaniaeth**, **hunanbenderfyniad** a **hunanfynegiant** o dan **Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Enghraifft 1:** eiriolwr yn mynychu cyfarfod amlddisgyblaethol ar ran rhywun mewn cartref gofal. **Enghraifft 2:** caniatáu i berson hŷn leisio pryderon am y math o driniaethau sydd fwyaf addas iddo.

**Cyfathrebu effeithiol:** Meithrin perthnasoedd rhwng gweithwyr gofal a defnyddwyr gwasanaethau, empathi, osgoi achosion o wrthdaro/anghytuno, symleiddio iaith, gwrando gweithredol, cyfathrebu geiriol/di-eiriau, caniatáu i unigolion fynegi eu hunain, rhannu syniadau a gwybodaeth, cyfieithu iaith, defnyddio lluniau i gyfathrebu. Bydd cyfathrebu yn effeithiol pan gaiff rhwystrau eu goresgyn, a phan gaiff canlyniadau ansawdd eu cyflawni.
**Enghraifft 1** – sgwrs gyfeillgar er mwyn cael gwybodaeth gan ddefnyddiwr gwasanaeth sydd wedi cael anaf i'w ymennydd ac yn ei chael hi'n anodd siarad a deall.
**Enghraifft 2** – defnyddio iaith y corff gadarnhaol er mwyn dangos sgiliau gwrando da.
**Enghraifft 3** – defnyddio iaith arwyddion, Makaton neu dechnegau darllen gwefusau i rywun sy'n fyddar.
**Enghraifft 4** – mae eiriolwr sy'n siarad yn mynegi safbwyntiau ar ran rhywun ag anawsterau iaith.